Cylchlythyr
Ysgol Ieuan Gwynedd

Tymor yr Hydref 2012

Barbeciw
Cawsom farbeciw llwyddiannus yn yr ysgol ddechrau mis Medi Daeth nifer i gefnogi a chafodd y plant werthu 'smoothies' ar eu stondin. yn ogystal a chymryd rhan mewn rasus. Diolch yn fawr i'r Cyfeillion am ei drefnu.

Taith Gerdded
Aeth aelodau'r Urdd ar daith gerdded 4 millitir. Roedd yn gyfle arbennig i gael cymdeithasu a chadw'n ffit yr un pryd. Llwyddwyd i godi £146 tuag at yr adran yn yr ysgol.

Taith i Lyn Alwen a Llyn Celyn
Cawsom ddiwrnod diddorol a hwyliog yng nghwmni ysgolion Machreth a Brithdir yn ymweld a'r ddwy gronfa ddŵr Mae dysgu am gronfeydd dŵr yn rhan o'n thema y tymor hwn ac roedd y profiad o gael mynd yno yn llawer o help wrth wneud y gwaith. buom yn dysgu am hanes adeiladu'r gronfa, pysgota am drychfilod yn y pwll a dysgu sut i arbed dŵr, a pheidio bod yn wastraffus.

Pêl droed 5 bob ochor
Aeth tim o'r ysgol i gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd yn y Ganolfan Hamdden yn Nolgellau.

Pêlrwyd yr Urdd
Cynhaliwyd dwrnament pêlrwyd yr Urdd yn y Ganolfan Hamdden yn Nolgellau ac fe berfformiodd y tîm yn arbennig o dda gan ennill dwy o'u gemau. Roedd y cystadlu yn frŵd ac fe wnaeth pawb fwynhau'r profiad yn arw.

Pantomeim
Aeth y plant hynaf i'r Bala i weld pantomeim 'Trywerynws'. Cafwyd llawer o hwyl a mwynhâd o weld y perfformiad.

Gwersi gymnasteg
Cynhaliwyd gyfres o wersi gymnasteg yn y neuadd bentref ar y cyd âg Ysgol Machreth.

Coed y Brenin
Ymunodd y disgyblion ieuengaf â Chyfnod Sylfaen Ysgol Brithdir ar drip i Goed y Brenin i gymryd rhan mewn gweithgareddau Nadoligaidd ac ymweld â Sion Corn.

Cefnogi Elusen Macmillan
Cynhaliwyd prynhawn coffi yn yr ysgol i gefnogi elusen Macmillan. Daeth nifer draw i fwynhau'r cacennau blasus a chyfrannu at yr elusen bwysig hon. Casglwyd £117.40 yn ystod y prynhawn. Diolch i bawb am gefnogi.

Amgueddfa'r Ysgol
Aethom i Ysgol Machreth er mwyn dysgu sut i greu amgueddfa. Daeth yr archifydd i siarad gyda ni am beth allem gynnwys yn ein amgueddfa. Rydym wedi casglu amryw o eitemau diddorol sy'n rhoi darlun gwell i ni o sut oedd bywyd yn y chwedegau.

Pêlrwyd
Treuliodd plant Blwyddyn 4,5 a 6 ddiwrnod mewn twrnament pêlrwyd a drefnwyd gan Gymdeithas Pêlrwyd Cymru. Cafwyd ddiwrnod llawn hwyl a chael dysgu llawer o sgiliau newydd.

Cwis Magnox
Aeth Llio Wyn, Sioned ac Erin Haf i gystadlu mewn cwis yn Nhrawsfynydd. Ennillwyd £50 i'r ysgol wrth gymryd rhan.

Trip Trap
Ymunodd Bl 6 gyda Ysgolion y Dalgylch yn niwrnod Trip Trap yn y Bermo er mwyn dysgu am beryglon camddefnyddio cyffuriau.

Diolchgarwch
Yn y capel yn Rhydymain cynaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch eleni. Bu pob disgybl yn cymryd rhan yn llefaru a chanu a hynny gyda graen. Daeth Y Parchedig Megan Williams i anerch y disgyblion. Casglwyd £82.93 at elusen yr Ambiwlans Awyr. Diolch i'r athrawon am eu gwaith yn paratoi'r disgyblion.

Ffair Nadolig
Cynhaliwyd y ffair lwyddiannus eto eleni ac yn ôl yr arfer bu'r plant yn paratoi eu nwyddau i'w gwerthu. Daeth siop Awen Meirion i osod stondin lyfrau ac fe gafwyd noson arbennig yng nghwmni holl gysylltiadau'r ysgol. Codwyd £479 tuag at goffrau'r ysgol ac fe fydd cyfran uchel ohono yn mynd tuag at brynu cyfrifiaduron ac ipads i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i'r Cyfeillion am y gwaith o drefnu, paratoi ac am fod mor barod i'n helpu. Heb eich cymorth ni fyddai'n bosib cyfoethogi adnoddau'r ysgol oni bai am y cyfraniad pwysig yma.

Eich Llywodraethwyr
Daeth tymor cynrychiolwyr y rhieni i ben ddiwedd Awst ac felly casglwyd enwebiadau ar gyfer y dair swydd ddechrau Medi. Y rheini sy'n eich cynrychioli ar y Corff Llywodraethol am y bedair blynedd nesaf yw Aranwen Manzini-Hughes, Robin Wyn Jones ac Aled M V Jones. Os oes gennych unrhyw beth dymunwch drafod ynglŷn â gweithrediad yr ysgol gallwch wneud hynny drwyddynt hwy neu drwy gysylltu â'r Cadeirydd sef Mrs Nia Wyn Jones trwy adael llythyr yn yr ysgol. Serch hynny, mae'r ysgol yn gweithredu polisi 'drws agored' ac yn gwahodd unrhyw sylwadau trwy'r pennaeth er mwyn gallu goresgyn unrhyw sefyllfa sydd o bryder i chi.

Dymuna holl staff, disgyblion a llywodraethwyr Ysgol Ieuan Gwynedd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Ysgol Ieuan Gwynedd Newsletter

Autumn Term 2012

BBQ
We had a successful BBQ at the school at the beginning of term.It was well supported and the pupils provided smoothies to sell as well as taking part in races on the evening. Many thanks to the Friends of the School for arranging the event.

Sponsored Walk
The Urdd members went on a 4 mile sponsered walk. It was a wonderful opportunity to socialise and keep fit at the same time. The pupils succeeded in raising £146 towards the Urdd at school.

Llyn Alwen and Llyn Celyn
We had a very interesting and fun day with pupils from Ysgol Machreth and Brithdir when we visited the water reservoirs. Learning about water reserves is part of our theme this term and the visit has helped us as we learn more about them. We learned about the history of building the reserve, went pond dipping to learn about how to be water efficient.

Urdd Netball
The school netball team performed exceptionally well at the Urdd netball competition in Dolgellau winning two of their games. The standard of competition was high and everyone enjoyed the experience immensely.

Pantomime
The KS2 pupils went to Bala to see the pantomime 'Trywerynws'. They had a wonderful afternoon and thoroughly enjoyed the performance.

Gymnastics lessons
Ysgol Machreth joined us for a series of gymnastics lessons at the village hall.

Coed y Brenin
The Foundation Phase pupils enjoyed a morning in Coed y Brenin with pupils from Ysgol Brithdir. They took part in Christmas activities and also met Father Christmas.

Supporting the Macmillan Charity
We held a coffee afternoon at the school to support the Macmillan charity. Many people came to enjoy the wonderful cakes and contribute to this important charity. We collected £117.40 during the afternoon. Thank you very much to everyone who supported the event.

School Museum
We went to Ysgol Machreth to learn about how to creat a museeum. The archifist came to show us what we could include in our museeum. We have collected many interesting items from the 60's that give us a better idea of what life was like during that time.

Netball
Years 4,5 and 6 spent the day in a netball tournament arranged by the Welsh Netball Association. They had a fun day and learned many new skills.

Magnox Quiz
Llio Wyn, Sioned and Erin Haf took part in a quiz in Trawsfynydd. They received £50 for the school by taking part in the event.

Trip Trap
Year 6 went to Barmouth to learn about alcohol and substance misuse.

Thanksgiving
We held the Thanksgiving service in the chapel. All pupils took part reciting and singing and did so enthusiastically and to a high standard. The Reverend Megan Williams came to address the pupils. £82.93 was collected towards Air Ambulance. Many thanks to the teachers for their hard work preparing the pupils.

Christmas Fair
A successful Christmas fair was held again this year and as usual the pupils prepared their items to sell. Awen Meirion held a book stall and we had a lovely evening in the company of friends and family. A total of £479 was raised towards the school fund and a high percentage of that will go towards buying new computers and ipads. Many thanks to the Friends of the School for organising, preparing and for being so helpful, without whose support it would not be possible to enrich the school's resources.

5 a side football.
The five a side football team went to the Leisure Centre to participate in the Urdd Competition.

School governors
The previous parents' representatives term came to an end at the end of August and therefore nominations were collected for the three vacancies at the beginning of term. The parents nominated to represent you for the next four years are Aranwen Manzini-Hughes, Robin Wyn Jones and Aled M V Jones. If you have anything you wish to discuss with the Governing Body regarding the school you may contact the representatives or alternatively the chairperson, Mrs Nia Wyn Jones by letter. However the school operates an 'open door' policy and we welcome all queries via the headteacher so that they can be resolved promptly.

All staff, pupils and governors at Ysgol Ieuan Gwynedd would like to wish you a Merry Christmas and a Happy New Year.